

Rhif: WG33002



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft
Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru)
(Diwygio) 2018**

Mawrth 2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Ymatebion i'r ymgynghoriad.....	3
3. Crynodeb o'r ymatebion.....	3
4. Rhestr o'r ymatebwyr.....	7
5. Y camau nesaf.....	8

1. Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (“Rheoliadau 2003”) a wnaed o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (“Deddf 2003”) yn darparu’r drefn reoleiddiol ar gyfer cyllid cyfalaf ac arferion cyfrifyddu llywodraeth leol i’w dilyn gan awdurdodau lleol Cymru. Mae Rheoliadau 2003 yn cynnwys darpariaethau manwl o ran rheolaethau cyllid cyfalaf a chyfrifyddu, gan gynnwys y rheolau o ran defnyddio derbyniadau cyfalaf a’r hyn y dylid ymdrin ag ef fel gwariant cyfalaf. Maent hefyd yn newid y modd y mae rhai o’r safonau cyfrifyddu ariannol yn cael eu rhoi ar waith i atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw’r awdurdodau.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i ystyried diwygio Rheoliadau 2003 er mwyn cyflwyno newidiadau i drefn cyllid cyfalaf a chyfrifyddu llywodraeth leol Cymru. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn llacio’r cyfyngiadau presennol o ran trafodiadau cyfalaf benthyc, trafodiadau cyfalaf cyfrannau penodol a bondiau, gan sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru’n gweithredu ar yr un sail â’u cymheiriaid yn Lloegr. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 20 Hydref 2017 a 12 Ionawr 2018.

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad.

2. Ymatebion i’r ymgynghoriad

Daeth 15 ymateb i law i gyd gan sefydliadau ac unigolion sy’n perthyn i’r categorïau a ganlyn.

- Awdurdodau lleol – 6
- Cynghorau tref a chymuned – 4
- Eraill – 4 (roedd y categori hwn yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru a chyrrff cyfrifyddu awdurdodau lleol)

3. Crynodeb o’r ymatebion

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â’r diwygiadau arfaethedig i Rheoliadau 2003?

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi’r cynigion.

Trafodiadau gwarannu

Roedd pob un o’r awdurdodau lleol a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn cytuno â’r diwygiad arfaethedig.

Bu i un o’r chyrrff cyfrifyddu godi cwestiwn ynghylch cyfreithlondeb trafodiadau gwarannu a sut y gall awdurdodau lleol ymdrin â’r refeniw a gynhyrchir o dan y drefn reoleiddiol. Dywedodd na fyddem am wanhau’r warrant ar gyfer benthyc, nac ychwaith am i’r asiantaethau asesu statws credyd na’r benthycwyr ystyried ei bod wedi gwanhau. Er ei fod yn deall nad oes modd i Lywodraeth Cymru wneud sylw ar gyfreithlondeb trafodiad, mae’n tybio y byddai’n ddefnyddiol iddi roi rhywfaint o eglurhad o ran yr agwedd benodol hon.

Awgrymodd corff arall y dylai'r driniaeth statudol ddibynnu ar y driniaeth gyfrifyddu: os caiff incwm ei gynhyrchu, dylai fod yn dderbyniad cyfalaf; os caiff rhwymedigaeth ei chreu, dylai fod yn drefniant credyd. Roedd un o'r awdurdodau lleol yn cytuno ac yn awgrymu y dylai'r driniaeth statudol ddibynnu ar union delerau'r trafodiad; dywedodd yr un awdurdod nad oedd yn rhagweld unrhyw gymwysiaid ymarferol ar gyfer y math hwn o drafodiad.

Gwariant i'w drin fel gwariant cyfalaf

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig. Awgrymodd un awdurdod fân newid i'r geiriad.

Awgrymodd corff arall y gallai'r esemptiad ar gyfer cynlluniau buddsoddi awdurdodau lleol a gymeradwyir gan y Trysorlys ffafrio un darparwr cronfa.

Roedd corff arall yn cefnogi nod y diwygiadau arfaethedig, ond bu iddo awgrymu newid i'r diffiniad o gronfeydd marchnadoedd arian.

Defnyddio derbyniadau cyfalaf

Roedd pob un o'r awdurdodau lleol a ymatebodd yn cefnogi'r diwygiad arfaethedig. Roedd corff arall yn tybio na fyddai'r diwygiad arfaethedig yn cael llawer o effaith.

Arferion priodol

Awgrymodd un corff y dylai'r Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau (SeRCOP) barhau i ddarparu arferion priodol ar gyfer cyfrifon awdurdodau lleol oherwydd ei rôl o ran adrodd ar berfformiad ac o ran darparu gwybodaeth ystadegol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau o ran cyfreithlondeb a sut i ymdrin â thrafodiadau gwarannu wrth gyfrifyddu a bydd yn egluro'r sefyllfa yn y sylwebaeth anffurfiol a gyhoeddir ganddi pan gaiff y rheoliadau eu gosod.

Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon nad yw'r newidiadau'n ffafrio un darparwr cronfa. Mae'r rheoliadau'n pennu'r mathau o gynlluniau torfol y gall awdurdodau gymryd rhan ynddynt, ond nid yw'n pennu unrhyw gyfyngiadau o ran darparwyr cynlluniau o'r fath. Mae'r rheoliadau'n ehangu ac yn egluro gallu awdurdodau lleol Cymru i fuddsoddi mewn cronfeydd marchnadoedd arian, ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tirol a chynlluniau buddsoddi awdurdodau lleol a gymeradwyir gan y trysorlys. Mae'r cyfryngau hyn yn darparu mwy o wyblygrwydd i gefnogi arferion rheoli trysorlys yr awdurdodau lleol a thybir bod llai o risg ynghlwm wrthynt na hapfuddsoddiadau mwy mentrus.

Yn ogystal â chyflwyno'r darpariaethau yr ymgynghorwyd arnynt, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ehangu'r diffiniad o gronfeydd marchnadoedd arian er mwyn cyfeirio'n ehangach at Ran XVII o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000. Bydd y diffiniad o gronfeydd marchnadoedd arian yn cynnwys cynlluniau ymddiriedolaeth unedau awdurdodedig, cynlluniau contractiol awdurdodedig, cwmnïau buddsoddi penagored a chynlluniau tramor cydnabyddedig.

Drwy ehangu'r diffiniad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru'n argymhell arferion buddsoddi penodol. Mae penderfyniadau buddsoddi'n dal i fod yn fater i'r awdurdodau unigol, ac mae angen iddynt roi sylw i ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru ac i God CIPFA ar Reoli'r Trysorlys pan fyddant yn gwneud hynny.

Drwy ddileu SeRCOP o'r arferion cyfrifyddu, bwriedir iddo gefnogi camau i symleiddio'r drefn o baratoi cyfrifon. Os caiff data eu casglu er mwyn paratoi adroddiadau am berfformiad neu adroddiadau ariannol eraill, mater i'r awdurdodau a'r rheini sy'n dibynnu ar y data yw pennu'r gofynion.

Cwestiwn 2 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y Rheoliadau drafft?

Awdurdodau lleol

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu ynghylch y camau i roi IFRS 9 ar waith a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar falans Cronfa'r Cyngor. Gofynnodd un o'r ymatebwyr i'r Llywodraeth ystyried rhoi mesurau lliniaru ar waith lle mae 'gwir' botensial iddo effeithio ar Gronfa'r Cyngor neu'r Cyfrif Refeniw Tai.

Erail

Dywedodd un o'r ymatebwyr fod strwythur y Rheoliadau braidd yn gymhleth erbyn hyn a bod risg gynyddol y bydd ymarferwyr yn anwybyddu'r newidiadau i'r rheoliadau gwreiddiol. Os bydd angen gwneud rheoliadau diwygio pellach, awgrymodd yr ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle i wneud rheoliadau newydd wedi'u cydgrynhoi.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion a gofyn am farn trysoryddion awdurdodau lleol. Bydd yn ystyried a ddylid cyflwyno mesur lliniaru statudol parhaol ar sail y dystiolaeth. Os bydd awdurdodau lleol Cymru'n gofyn am fesur lliniaru statudol ar gyfer pob colled, byddwn yn disgwyl gweld tystiolaeth sy'n dangos bod amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn sylweddol ac na ellir eu rheoli drwy ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw dystiolaeth arall y mae'r awdurdodau lleol yn gofyn inni ei hystyried.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried dirymu'r rheoliadau a'u hail-wneud os bydd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau sylweddol eraill.

Cwestiwn 3 – A ydych wedi ystyried y graddau y bydd cyflwyno IFRS 16 yn effeithio ar awdurdodau lleol Cymru?

Dywedodd un o'r ymatebwyr y bydd cyflwyno IFRS 16 yn her sylweddol i awdurdodau lleol Cymru a'i bod yn debygol y bydd yn anodd casglu'r wybodaeth ofynnol yn unol â'r amserlen. Bu i un o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad adleisio'r farn hon. Tybir hefyd y gallai cyflwyno IFRS 16 effeithio ar amseriad cydnabod gwariant a'r gofyniad cyllido cyfalaf.

Dywedodd dau o'r ymatebwyr y bydd cyflwyno IFRS 16 yn cael effaith debyg ar awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig, ac nid dim ond yng Nghymru.

Roedd un o'r ymatebwyr yn tybio y bydd cyflwyno IFRS 16 yn cynyddu'r lefelau dyledusrwydd, ond na fydd yn newid y gofyniad benthyca sylfaenol. Roedd yr un ymatebwr yn tybio y gallai hefyd effeithio ar sefyllfa'r cap ar ddyled awdurdodau tai.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd CIPFA/LASAAC yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ynghylch IFRS 16 Prydlesi. Bydd yn amlinellu cynigion CIPFA/LASAAC i lunio argraffiad newydd o'r Cod a fydd yn berthnasol i'r cyfnodau cyfrifyddu a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2019 ac ar ôl hynny. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu anfon y sylwadau a wnaed at y cyrff hyn, ond mae'n annog awdurdodau Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw hefyd.

4. Rhestr o'r ymatebwyr

Daeth ymatebion i law gan y sefydliadau a ganlyn.

Awdurdodau lleol

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Cyngor Gwynedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cynghorau tref a chymuned

Cyngor Tref Llanandras a Norton

Cyngor Tref y Bari

Cyngor Cymuned Caeriw

Erail

Arlingclose Ltd

Link Asset Services

Swyddfa Archwilio Cymru

Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu

5. Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu adolygu a gosod y rheoliadau er mwyn iddynt ddod i rym mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.